Cylchdroi Cnydau

Er mwyn helpu i reoli pla a chlefydau, mae'n syniad da tyfu teuluoedd o lysiau mewn gwelyau gwahanol a'u symud nhw o gwmpas (eu cylchdroi) bob blwyddyn.

Blwyddyn 1



Blwyddyn 2



Mae hyn yn golygu rhoi'r holl blanhigion sy'n perthyn i deulu'r tatws mewn un man a'r holl blanhigion o deulu'r moron mewn man arall, fel mae'r diagramâu uchod yn ei ddangos.

Pam cylchdroi cnydau?

- Mae symud cnydau (*crops*) o gwmpas yn helpu i atal pla a chlefydau sydd yn y pridd rhag magu ac ymgryfhau.
- Mae planhigion angen gwahanol faint o faeth ac maent yn eu cymryd o rannau gwahanol o'r pridd. Mae newid y cnydau mewn darn o dir yn golygu bod holl rannau'r pridd yn cael eu defnyddio.
- Mae teuluoedd llysiau yn aml angen maeth (bwyd) tebyg. Mae cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn golygu bod y cnydau yn gallu tyfu'n dda.
- Mae gan rai planhigion ddeiliach trwchus (sef bod ganddynt lawer o ddail a'r rheiny'n agos at ei gilydd). Mae'r planhigion yma yn helpu i stopio'r chwyn rhag tyfu. Bydd tyfu planhigion heb ddeiliach trwchus mewn un man un flwyddyn ac yna tyfu rhai sydd â dail trwchus y flwyddyn nesaf yn helpu i leihau faint o chwyn gewch chi.

Pa mor hir y dylai'r cylchdro bara?

Po hiraf y cylchdro, po orau, ond fel arfer mae'n para pedair blynedd. Mae dwy flynedd gyntaf cylchdro pedair blynedd i'w weld gyferbyn.

Sut mae cynllunio cylchdro?

Gellwch ddod o hyd i enghreifftiau o gylchdroi cnydau mewn llawer o lyfrau garddio. Ond gellwch gynllunio eich cylchdro eich hun drwy ddilyn y camau yma:

1. Gwnewch restr o'r holl fathau o lysiau a'r nifer o blanhigion yr ydych am eu tyfu.

2. Gosodwch y planhigion gyda'i gilydd mewn teuluoedd botanegol. Mae'r siart ar gefn y daflen hon yn dangos i chi pa blanhigion sy'n perthyn i ba deulu.

3. Gwnewch gynllun ar bapur o'r ardd lysiau. Rhannwch y lle yn bedair rhan gyfartal. Rydych angen yr un nifer o rannau â'r nifer o flynyddoedd yr ydych am i'r cylchdro bara. Felly ar gyfer cylchdro pedair blynedd rydych angen rhannu'r lle tyfu llysiau yn bedair rhan.

4. Meddyliwch ynghylch pa gnydau sy'n mynd i ba ran. Dylech gadw teuluoedd gyda'i gilydd, ond os oes gennych fwy nag un cnwd ar gyfer darn o dir, yna dewiswch blanhigion sydd angen yr un pethau i dyfu.

5. Cadwch gofnod ar bapur—cofnodwch beth sy'n digwydd, nid dim ond beth yr oeddech wedi'i gynllunio. Defnyddiwch yr wybodaeth hon wrth gynllunio at y flwyddyn nesaf.

Teuluoedd planhigion llysieuol

Chenopodiaceae
Teulu'r Betys
Betys (*beetroot*)
Sawdl y Crydd (*good king henry*)
Cwinoa (*quinoa*)
Sbigoglys (*spinach*)
Gorfetys (*Swiss chard*)
Betys pigoglys (*spinach beet*)



Solanaceae
Teulu'r Tatws
Aubergine
Pupur
Tatws

Umbelliferae (*Apiaceae*)
Teulu'r Moron
Moron; Seleriac;
Seleri; Persli;
Pannas;
Ffenigl (fennel)



Alliaceae
Teulu'r Nionod/Winwns
Garlleg
Cennin

Amrywiol
India-corn (*sweetcorn*)
llysiau'r oen (*lambs lettuce*)
Miners lettuce
Sbigoglys Seland Newydd (*New Zealand Spinach*)
Helyglys (*purslane*)
Phacelia
Rhyg pori (*grazing rye*)
Gwenith yr ŷd (*buckwheat*)

Cucurbitaceae
Teulu'r Maro
Ciwcymbr; Courgette;
Maro; Melon;



Leguminosae (*Fabaceae*)
Teulu'r Pys a Ffa
Alffalffa
Ffa melyn (*broad bean*)
Ffa dringo
Meillion (*clover, trefoil*)
Ffenigrig (*fenugreek*)
Ffa'r blaidd (*lupin*)
Pys
Corbys (*tares*)

Compositae (*Asteraceae*)
Teulu Llygaid y Dydd
Ysgall y meirch (*chicory/endive*)
Gellyg y ddaear (*Jerusalem artichoke*)
Letys
Barf yr afr gochlas/salsiffi (*salsify*)
Sgorsonera/salsiffi du

Cruciferae (*Brassicaceae*)
Teulu'r Bresych
Brocoli
Ysgewyll/sbrowts (*Brussels sprouts*)
Bresych (*cabbage*)
Brocoli calabriaidd (*calabrese*)
Blodfresych (*cauliflower*)
Bresych crych / cêl (*kale*)
Colrabi (*kohlrabi*),
Mwstard
Bresych o'r dwyrain (*oriental brassicas*)
Rhuddygl / radis (*radish*)
Rwdins / swêds (*swede*)
Maip / erfin (*turnip*)



Cylchdroi Cnydau

Canllaw i fyfyrwyr ar gynllunio cylchdro cnydau

garden organic

Garden Organic *for* Schools
www.schoolsorganic.net

cyfieithwyd gan Ganolfan Organig Cymru
www.organic.aber.ac.uk/cymraeg